# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd Alex Williams** **Ward: Pencoed a Phen-prysg**

**Plaid: Annibynnol / Cynghrair Ddemocrataidd**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol ar gyfer y cyfnod rhwng **1 Gorffennaf 2023 a 10 Mehefin 2024.** Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

* Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. *

**Y Rôl a Chyfrifoldebau**

Yn ystod 2023/2024, rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau o gynrychioli trigolion Pencoed a Phen-prysg a'u cynorthwyo ar ystod eang o faterion.

Yn ogystal â'r Cyngor Llawn, rwy'n aelod o sawl Pwyllgor a chefais fy mhenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol; Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 1 ac Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

O ganlyniad i gynnal y rolau hyn, eisteddais fel Aelod o Fwrdd Asesu Perfformiad Corfforaethol CBSP; y Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb; Grŵp Gwella Ysgolion; y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rwyf hefyd yn aelod o Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg ac Is-Grŵp Diogelwch Cymunedol Pencoed.

**Cyngor Llawn**

Yn ystod y cyfnod adrodd, bu 10 cyfarfod Cyngor llawn ac roedd fy nghyfraniadau'n cynnwys:

- Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Addysg ar nifer yr ysgolion sydd mewn diffyg ariannol yn y Fwrdeistref Sirol;
- Cynnig arfaethedig ar gyfer dadl ar system fwy cynaliadwy a gwydn o gyllido llywodraeth leol.

Am fwy o wybodaeth am waith Cyngor Llawn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, cliciwch yma.

**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol**

Mae wyth cyfarfod o'r Pwyllgor wedi cael eu cynnal ac mae'r materion a drafodwyd yn cynnwys:

- Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a’r Strategaeth Gyfalaf (Cyllideb)
- Monitro’r Gyllideb
- Cynllun Cyflawni Cynllun Corfforaethol; Perfformiad Corfforaethol a Hunanasesiad
- Gwasanaethau Ailgylchu a Gwastraff ôl-2024
- Adroddiad Blynyddol y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
- Cynllun Strategol y Gweithlu
- Gwydnwch TGCh
- Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad

Am fwy o wybodaeth am waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, cliciwch yma.

**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 1**

Cafwyd chwe chyfarfod o'r Pwyllgor sy'n ymdrin yn bennaf â materion sy'n ymwneud ag Addysg a Chymorth i Deuluoedd. Mae'r materion a drafodwyd yn cynnwys:

- Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
- Dull Gweithredu Ysgol Gyfan o Ymdrin â Lles Emosiynol a Meddyliol
- Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd a Materion Gweithredol y Gwasanaeth Arlwyo
- Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg
- Adroddiad Craffu Blynyddol yr Awdurdod Lleol - Consortiwm Canolbarth y De

Am fwy o wybodaeth am waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 1, cliciwch yma.

**Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio**

Roeddwn i'n Aelod o Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Cyngor tan fis Mai 2024. Roeddwn i a chydweithwyr yn gyfrifol am adolygu fframweithiau llywodraethu, asesu perfformiad, rheoli risg a rheoli'r Cyngor a goruchwylio'r prosesau adrodd ariannol a llywodraethu blynyddol. Am fwy o wybodaeth am waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cliciwch yma.

**Presenoldeb**

Yn y 28 cyfarfod y bu disgwyl i mi eu mynychu, rwyf wedi bod yn bresennol yn 26 ohonynt ac wedi gorfod anfon ymddiheuriadau ar gyfer 2 gyfarfod.

**Atgyfeiriadau a Datblygu Aelodau**

Yn ystod y cyfnod adrodd, rwyf wedi cefnogi trigolion Pencoed a Phen-prysg ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi dros 160 o atgyfeiriadau ffurfiol gyda'r Cyngor drwy'r Porth. Mae hyn yn ychwanegol at godi materion yn ddyddiol yn uniongyrchol â swyddogion perthnasol a chysylltu'n ffurfiol â sefydliadau eraill ar ran preswylwyr a mynd i'r afael yn anffurfiol â dwsinau o faterion eraill y gofynnwyd i mi eu datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a’r ward rydw i’n ei gynrychioli.

Am fwy o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau, cliciwch yma.

**Gweithgareddau Etholaethol**

Mae'r Cyngor yn darparu mwy na 800 o wasanaethau, ac mae rôl Cynghorydd Bwrdeistref Sirol yn amrywiol. O'r atgyfeiriadau a wneuthum ar ran trigolion Pencoed a Phen-prysg, rwyf wedi ceisio cefnogi aelodau'r cyhoedd ar faterion sy'n amrywio o: -

- Gofal Cymdeithasol a Diogelu Oedolion a Phlant
- Addysg a Chymorth i Deuluoedd, Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, Anghenion Dysgu Ychwanegol a darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg
- Rheoli Gwastraff, Ailgylchu, Tipio Anghyfreithlon a Baw Cŵn
- Priffyrdd a Thrafnidiaeth gan gynnwys gosod arwyneb ffordd newydd, tyllau yn y ffyrdd, goryrru, parcio, teithio llesol, diogelwch ar y ffyrdd, goleuadau stryd ac arwyddion
- Tai Cymdeithasol a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- Parciau a Meysydd Chwarae
- Hawliau Tramwy
- Cynllunio a Gorfodi Cynllunio
- Mannau Gwyrdd – Torri glaswellt a Gorchmynion Diogelu Coed
- Llifogydd a Draenio
- Treth Gyngor a Thaliadau Costau Byw
- Materion Rheoleiddiol gan gynnwys Llygredd Sŵn; Iechyd yr Amgylchedd; Diogelwch Tân
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Gwasanaethau Profedigaeth

Rwyf hefyd yn Aelod o Bwyllgor Clwb Rygbi Heol-y-Cyw ac yn Drysorydd Neuadd Les Glowyr Pencoed.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Ymhlith y materion allweddol sy'n effeithio ar Ward Pencoed a Phen-prysg yr wyf wedi bod yn cefnogi preswylwyr i'w datrys ac yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr arnynt y mae:

- Yr uchelgais gwerth miliynau o bunnoedd i adfywio canol tref Pencoed; pont ddeuol Penprysg Road; cau'r groesfan rheilffordd; a sicrhau bod unrhyw foratoriwm ar ddatblygiadau i'r gorllewin o'r rheilffordd yn parhau yn ar waith nes bod Hendre Road yn cael ei ehangu ac amwynderau cyhoeddus ym Mhencoed yn gwella.
- Materion yn ymwneud ag ardal casglu/gollwng plant yn Ysgol Gynradd Pencoed.
- Materion cynllunio sy'n ymwneud â datblygiad mawr i'r dwyrain o Bencoed.

- Materion parhaus gyda'r Cyfamodau Hamdden ar dir yng Nghlwb Rygbi Pencoed sydd â goblygiadau posibl ar foderneiddio ysgolion.
- Apeliadau cynllunio yn Rhiwceiliog.

**Y Cynghorydd:** Alex Williams **Dyddiad:** 10/06/24